❖ Dydd Gŵyl ei Eni

Arglwydd, mor debyg i ti dy hun yw Dydd Gŵyl dy eni,
yn dwyn llawenydd i'r holl ddynoliaeth.
Y mae plant a henoed fel ei gilydd yn mwynhau dy ddydd di,
ac fe'i dethlir o genhedlaeth i genhedlaeth.
Bydd brenhinoedd a thywysogion yn mynd a dod
a'u dyddiau gŵyl yn darfod a mynd yn angof,
ond dethlir dy ŵyl di hyd ddiwedd amser.
Arwydd ac addewid o dangnefedd yw dy ddydd di:
y dydd y cymodwyd nef a daear,
y dydd y daethost o'r nef i'r byd hwn,
i faddau i ni ein pechodau ac i symud ymaith ein heuogrwydd.
Ar dy ben blwydd rhoddaist i ni gymaint o roddion hael:
trysorfa o feddyginiaethau ysbrydol i gleifion;
goleuni ysbrydol i ddeillion;
cwpan iachawdwriaeth i'r sychedig,
a bara'r bywyd i'r newynog.
Yn y gaeaf noethlwm pan yw'r coed heb ddail
yr wyt ti'n rhoi ffrwythau ysbrydol blasus.
Yn y llwydrew pan yw'r ddaear yn ddiffrwyth,
yr wyt yn dod â gobaith newydd i'n heneidiau.
Ym moelni Rhagfyr pan yw'r hadau'n ymguddio yn y pridd,
fe dyf Pren y Bywyd o groth y Forwyn.

Effraim y Syriad

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com